

Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

**1: Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n** deg, yn foesebol a chynaliadwy

**2: Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy a gwneud y cysylltiadau**

**3: Chwarae ein rhan i sicrhau** fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb

**4: Sicrhau ein bod yn deal** pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang

**5: Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr,** i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu





Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



**Taith tuag at**

# Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r  
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw  
beth i wella llesiant economaidd,  
cymdeithasol, amgylcheddol a  
diwylliannol Cymru, yn ystyried  
a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n  
gadarnhaol at lesiant byd-eang.”*



## Diffinio'r nod

Martin Luther King yr leuengaf a ddywedodd: “cyn i chi orffen bwyta'ch brecwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar hanner y byd.”

Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd, ein penderfyniadau a'r ffordd yr ydym yn dewis gwario ein harian ganlyniadau pellgyrhaeddol i wledydd eraill a phobl ar draws y byd. Dengys amcangyfrifon y byddai arnom angen 1.7 Daear i barhau gyda'n lefelau presennol o dwf a defnydd.

Mae'n hollbwysig ein bod, wrth feddwl am wella llesiant pobl yng Nghymru, hefyd yn meddwl am ein heffaith ar eraill. Nid defnyddwyr byd-eang yn unig ydym ni, ond dinasyddion byd-eang, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chadwyni cyflenwi moesegol, yn defnyddio ein rhan deg o adnoddau naturiol y ddaear, yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, yn gweithio i wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb, gan wneud y penderfyniadau ariannol cywir ac addysgu pobl eraill pa mor bwysig ydyw cyfrifoldeb byd-eang.



### Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



## Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

**Caffaelwch nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang**

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol\)](#)

**Darparwch gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am a deall ein heffaith yn fyd-eang**

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang\)](#)

**Sicrhewch fod ein cymunedau'n croesawu pawb, gan gyfrannu at lesiant cymdeithasol a diwylliannol**

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 3: Cydsefyll a heddwch\)](#)

**Defnyddiwch adnoddau naturiol yn ddoeth, gan gyfrannu at lesiant amgylcheddol yn fyd-eang ac yng Nghymru**

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 4: Ein rhan deg o adnoddau naturiol\)](#)

**Gwnewch benderfyniadau ariannol sy'n gwella llesiant economaidd yn fyd-eang ac yng Nghymru**

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 5: Buddsoddi a dargyfeirio teg a moesegol\)](#)

## Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Bwriad y **[Ddeddf Caethwasiaeth Fodern](#)** 2015 oedd brwydro yn erbyn caethwasiaeth modern yn y DU, ac mae'n cyfnerthu troseddau blaenorol sy'n berthnasol i fasnachu pobl a chaethwasiaeth. Mae gan y llywodraeth ganllawiau ar gyfer sefydliadau ar sut i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn eu busnes neu eu cadwyni cyflenwi [yma](#).



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'

## Galluogwyr

Mae'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd cymdeithas sifil yn cefnogi gweithredu sy'n cael effaith byd-eang cadarnhaol.
- Pan gytnir bod amrywiaeth yn uno cymunedau yn hytrach na'u rhannu.
- Pan fydd pwysigrwydd gweithredu byd-eang yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall: a heb fod yn cael ei weld fel rhywbeth syml, dymunol 'ychwanegol' at fusnes-fel-arfer.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr eraill yn berchen ar y weledigaeth i gynorthwyo prosiectau byd-eang ac yn deall ein cyfraniad cadarnhaol ac yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'u perthnasedd i Gymru.



## Analluogwyr

Mae'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd 'gofalu am Gymru gyntaf', gan anwybyddu popeth arall.
- Pan na fydd mesurau neu ddangosyddion ar gael i ddisgrifio natur ymagweddau effeithiol tuag at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd sefydliadau ynghlwm wrth drefniadau sy'n bodoli eisoes – megis contractau caffael, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd.
- Pan fydd arbenigedd perthnasol mewn sefydliadau'n gyfyng ac mewn seilos.





Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

## 2: Dinasyddiaeth Fyd-Eang ac Arweinyddiaeth

Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy a gwneud  
y cysylltiadau



## Diffinio'r mater

Drwy ddarparu cyfleoedd i bob un ddysgu am y byd yn cynnwys am adnoddau naturiol, masnach, democratiaeth, heddwch, cydsefyll a'r newid yn yr hinsawdd gallwn sicrhau ein bod yn defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chyfrannu at fyd heddychlon.

Drwy feithrin ymddygiad cynaliadwy ac ymgysylltu â dinasyddion gallwn hefyd liniaru'r newid yn yr hinsawdd a chyfrannu tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Fel cenedl sy'n awyddus i fod yn genedl sy'n edrych allan a'i thegwch a'i chynaliadwyedd yn cael eu cydnabod, gall cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu rhyngwladol ddangos arweinyddiaeth a chynorthwyo ein rôl fel Cenedl sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.

### Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill :



#### **Taith tuag at Gymru fwy cyfartal**

**Pwnc 2:** Cyfleoedd a ddysgol



#### **Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

**Pwnc 5:** Diwylliant sy'n hygyrch i bawb

## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Hyrwyddwch gynlluniau gwobrau** cynaliadwy yn eich ardal yn cynnwys [Fair Aware](#), [Ysgolion Eco](#), [Trefi Masnach deg](#), [Trefi Cyfeillgar i Wenyn](#), [Trefi Diblastig](#), [Ysgolion Heddwch](#).

**Hyrwyddwch y 7 nod llesiant** a osodwyd gan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ochr yn ochr ag [17 Nod Llesiant Byd-eang y Cenhedloedd Unedig](#) ymhlith eich staff, eich sefydliad a'ch cymuned drwy adnoddau, ar-lein, mewn digwyddiadau, a thrwy hyfforddiant.

**Gwiriwch bob polisi** a strategaeth newydd i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr fel eu bod yn alinio gymaint â phosibl â'r [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ac [17 Nod Byd-eang y Cenhedloedd Unedig](#).

**Sicrhewch** fod eich sefydliad, staff a'ch cymuned yn cymryd rhan yn y [Bythefnos Masnach Deg](#) (fel arfer yn ystod wythnos olaf mis Chwefror ac wythnos gyntaf mis Mawrth) ac/neu Ddiwrnod [Masnach Deg y Byd](#) (fel arfer ar yr ail ddydd Sadwrn ym mis Mai).

e.e. Mae [swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn gwahodd cynhyrchwyr Masnach Deg i'r sefydliad i rannu eu profiadau.

**Yn eich gwaith gydag ysgolion a phobl ifanc**, sicrhewch fod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu am [sut i fod yn foesegol, yn ddinesydd gwybodus o Gymru a'r byd](#).

e.e. Menter y DU yw [Dosbarthiadau Cysylltiedig y Cyngor Prydeinig](#) sy'n ein helpu i gysylltu â'r byd ac sy'n darparu canllawiau addysgol ac adnoddau.

**Hyrwyddwch gyfleoedd arweinyddiaeth** fel y gall eich staff ddeall cyd-destunau byd-eang.

e.e. [Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol](#), [Hub Cymru Africa](#), [Cysylltiadau Iechyd Cymru Affrica](#), [Panel Cyngori Is-Sahara](#), Masnach Deg, (Credyd Fideo: Academi Cymru).

**Sicrhewch fod gennych** bolisi absenoldeb astudio sy'n deg a chyfartal – a chynhwyswch absenoldeb arbennig ar gyfer prosiectau datblygu rhyngwladol megis [Cysylltiadau Iechyd Cymru Affrica](#).

## Gwneud Newidiadau Syml

**Hyrwyddwch y 5 R's to Sustainability** (Refuse, Reduce, Reuse, Recycle/Gwrthod, Lleihau, Aildefnyddio, Ailgylchu) gydag ailgylchu'n dod yn olaf yn y gadwyn bwysigrwydd.

**Cymerwch un cam** tuag at ddysgu byd-eang megis ymgyfrannu yn y [Diwrnod Gwyrdd](#), [Awr Ddaear](#) neu [Bythefnos Masnach Deg](#).

e.e. Gwylwch genedlaethau'r dyfodol hyn yn gwneud addewid i'r blaned dros [Awr Ddaear](#).

**Hyrwyddwch Wers Fwya'r Byd** ac anogwch bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithredu byd-eang dros newid.

**Ymgysylltwch â phobl** ifanc ac eraill yn eich ardal sy'n medru rhannu eu profiad o ddysgu am [Fasnach Deg](#), [Ysgolion Eco](#), [Maint Cymru](#) a gweithgareddau [Heddwch a Chydsefyll](#). Mae gan [Ysgol Gynradd Millbrook](#) rai enghreifftiau gwych ac mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili [enghreifftiau gwych](#) ac adnoddau yma.

**Cyflëwch i eraill gyfraniad** eich sefydliad a'ch cymuned i gyfrifoldeb byd-eang - gallai hyn fod ar y cyfryngau cymdeithasol, ar [eich gwefan](#), yn y [wasg genedlaethol](#), y [wasg leol](#), cylchlythyrau neu adroddiadau blynyddol.

**Deallwch sut y gallwch weithredu** i liniaru tlodi byd-eang drwy [bethau fel dysgu](#), [codi arian](#), [codi ymwybyddiaeth](#) a hyrwyddo ac yn arbennig drwy ddewisiadau caffael.

e.e. Mae gan [Oxfam](#) enghreifftiau cryf o'r modd y gallwch weithredu i liniaru tlodi byd-eang.

ee

ee

## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Crëwch gyfleoedd** i gynorthwyo elusennau datblygu rhyngwladol neu grwpiau cymunedol partneriaeth fyd-eang leol megis [Hub Cymru Africa](#) neu [Bwyllgor Argyfyngau Trychineb](#) i alluogi staff a dinasyddion i gymryd rhan mewn materion byd-eang fel diwrnodau elusennol, stondinau/sgyrsiau, codi arian a gweithdai.

ee

e.e. Mae [Dolen Cymru](#) wedi bod yn rhoi cyfleoedd i bobl o Gymru i gysylltu â chymunedau yn Lesotho am dri degawd a mwy.

**Adolygwch** sut y gall eich sefydliad ddefnyddio gwiriad-iechyd [buddsoddi mewn gwirfoddolwyr](#) a'r offeryn safonau.

## Bod Yn Fwy Anturus

### Datblygwch a chyflawnwch

[weithgareddau addysgol](#) lle mae pawb yn cael y cyfle i gysylltu ag amrywiaeth y byd, dyfnhau dealltwriaeth o faterion byd-eang a gweithredu.

### Sicrhewch fod eich sefydliad

yn cynorthwyo statws eich sir fel [gwlad Masnach Deg](#).

### Cynorthwywch staff a phobl

yr ydych yn gweithio gyda nhw i gyfranogi mewn [Cyfle Dysgu Rhyngwladol](#) a rhwch gyhoeddusrwydd i hyn pan fydd pobl yn mabwysiadu cyfleoedd.

e.e. [Gwelwch fideo](#) cyfranogwyr yma. Mae [strategaeth iechyd rhyngwladol](#) [lechydd](#) [Cyhoeddus Cymru](#) a'i bolisi absenoldeb arbennig yn arloesol a chynorthwyol.

### Darparwch hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf

i staff (a gwnewch hyn yn agored i bobl eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw neu yn eich cymuned) ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ochr yn ochr ag [17 Nod Byd-eang y Cenhedloedd Unedig](#).

e.e. Mae adnoddau addysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn [offerynnau defnyddiol](#) sy'n cysylltu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r nodau byd-eang ag agweddau ar y cwricwlwm.

**Gweithiwch gyda sefydliadau eraill** i sefydlu cyfleoedd dysgu am gydraddoldeb a hawliau dynol yn gynnar mewn bywyd ac ar draws y [cwricwlwm newydd](#) i sicrhau bod addysg

yn Nghymru'n cynhyrchu dinasyddion sy'n parchu amrywiaeth, yn deall gwerth [hawliau dynol](#) ac yn cyfranogi yn ein democratiaeth.

e.e. Gweler [Hwb](#) a [Senedd Ieuenctid Cymru](#) i weld sut y gellir ymgysylltu â phobl ifanc.

### Cynorthwywch staff a'r bobl

yr ydych yn gweithio gyda nhw i gymryd rhan mewn weithgareddau gwirfoddol ar gyfer cyfrifoldeb byd-eang megis codi arian, neu drwy gysylltiadau sefydliadol.

e.e. [Glan Clwyd- Ethiopia](#) neu PONT, y [newid yn yr hinsawdd](#), [Tref Fasnach Deg](#), [Tref Ddi-blastig](#), [Tref Drawsnewid](#), [BAMA/cymuned ddiaspora](#).

ee

CARTREF

ee

ee

ee

## Bod Yn Fwy Anturus

### Datblygwch fentrau i

recriwtio pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eich gweithlu.

e.e. Mae gan [Women Connect First](#) rai syniadau gwych.

**Darparwch** gyfleoedd [dysgu byd-eang](#) i'r holl staff ar bynciau'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd, cydsefyll a chynaliadwyedd ac ystyriwch ymestyn hyn i bobl eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw, ochr yn ochr â'r cyhoedd. Nod hyn yw cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth, cadarnhau gwerthoedd ac agweddau a gwella sgiliau.

**Darparwch gyfleoedd** i gwrdd â'r bobl sydd wrth wraidd materion, megis cynhyrchydd Masnach Deg a dyfnhewch ein dealltwriaeth o'r cyd-destun byd-eang. Gwiriwch [yma](#) i ddod i wybod sut lwyddodd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i wneud hyn.

**Sicrhewch fod eich sefydliad** yn gweithredu i leihau tlodi byd-eang drwy godi ymwybyddiaeth, codi arian a thrwy gaffael a phartneriaethau.

**Dewch yn sefydliad** sy'n "[buddsoddi mewn gwirfoddolwyr](#)".

## Perchnogi'r Uchelgais

### Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol i arwain y ffordd

**Cymru'n dangos** ei bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i leihau tlodi byd-eang yn trwy codi ymwybyddiaeth, codi arian a drwy gaffael a phartneriaethau.

**Mae Cymru'n cynnal** a chryfhau ei statws fel [Cenedl Masnach Deg](#).

**Mae pobl Cymru'n** deall materion byd-eang fel mudo, gwrthdaro ac anghyfartaledd, y ffactorau sydd wrth eu gwraidd, a sut y mae materion o'r fath yn cysylltu â'n bywydau ni ein hunain, ac yn ein helpu i fedru meddwl yn fwy beirniadol a chreadigol i gynorthwyo dysgu ar y cyd a dadansoddi, a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu eraill.

**Cymru'n dangos** ei bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau ei bod yn cryfhau'r ymateb byd-eang i fygythiad y newid yn yr hinsawdd drwy gadw'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang yn y ganrif hon ymhell islaw 2 radd Celsius uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol ac ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd hyd yn oed ymhellach i 1.5 gradd Celsius.

## Perchnogi'r Uchelgais

### Sut fedr eich sefydliad berchnogi'r uchelgais

#### Mae pob person sy'n gweithio

i chi/sy'n byw yn eich cymuned yn cael y cyfle i hogi'r sgiliau sydd eu hangen i wneud y penderfyniadau iawn ar gyfer y dyfodol, ac i fod yn empathetig, ac yn ymwybodol yn fyd-eang.

**Caiff eich holl staff** waeth beth fo'i rôl y cyfle i gymryd rhan mewn ymgysylltu, a gweithgareddau byd-eang.

#### Mae Cyfrifoldeb Byd-eang

yn weithgaredd craidd, yn cynnwys deialog barhaus sy'n weladwy iawn drwy gynllunio sefydliadol a phartneriaeth.

#### Mae eich staff a'r bobl

yr ydych yn gweithio gyda nhw yn deall gwerth gwrthod, lleihau, aildefnyddio, atgyweirio/ail-bwrpasu, ailgylchu, gydag adnoddau data cadarn yn dangos tystiolaeth o hyn.




## Enghreiffitiau ac adnoddau eraill



Menter wedi ei lleoli yng Nghymru yw **Anabledd yng Nghymru ac Affrica** sy'n credu y dylai anabledd fod yn rhan o bob menter ddatblygu



**Cytundeb Hinsawdd Paris**



**Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig**



**Cenedl Masnach Deg**